



# Prawf Craffter Mewn Sefyllfaoedd ar gyfer Cwnstabiail Heddlu

Gwybodaeth ar gyfer ymgeiswyr

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth i chi am y Prawf Craffter Mewn Sefyllfaoedd ar gyfer Cwnstabiail Heddlu. Mae'n disgrifio pam fod y prawf hwn wedi'i ddefnyddio, beth fydd ffurf y prawf, a sut fedrwrch chi fynd i'r afael â'r sesiwn brofi.

## Pam ydw i'n cael fy holi i wneud prawf?

Bydd y prawf hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â gwybodaeth arall am dalentau a phrofiadau pobl er mwyn asesu pa un ai a oes gan rywun y cryfderau, agweddau ac ymddygiadau cywir i fodloni anghenion y swydd. Dewiswyd y prawf hwn am ei fod yn asesu galluedd sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n bwysig ar gyfer perfformiad llwyddiannus yn y rôl. Mae defnyddio'r math hwn o brawf yn cynnig nifer o fanteision, gan gynnwys y canlynol:

- Maen nhw'n cynnig dull gwrthrychol o asesu pobl yn seiliedig ar feini prawf sy'n berthnasol ar gyfer y swydd
- Maen nhw'n rhoi cyfle i ymgeiswyr arddangos eu cryfderau a'u galluedd

## Beth yw'r Prawf Craffter Mewn Sefyllfaoedd ar gyfer Cwnstabiail Heddlu?

Mae'r Prawf Craffter Mewn Sefyllfaoedd ar gyfer Cwnstabiail Heddlu yn asesu'ch sgiliau penderfynu a barnu mewn perthynas â sefyllfaoedd sy'n berthnasol ar gyfer y swydd. Yn y prawf, cyflwynir sawl senario i chi sy'n adlewyrchu sefyllfaoedd heriol y gallech eu hwynebu wrth weithio mewn rôl Swyddog Heddlu. Ar gyfer pob senario, rhoddir pedwar cam gweithredu posibl y gellir eu cymryd i chi. Gofynnir i chi farnu pob un o'r pedwar cam gweithredu ar ei effeithiolrwydd o ran mynd i'r afael â'r senario. Dangosir y raddfa ar gyfer barnu'r camau gweithredu isod.

Gwrthgynhyrchiol	Aneffeithiol	Eithaf Effeithiol	Effeithiol	Effeithiol Iawn
Cam gweithredu amhriodol a fydd yn effeithio'n negyddol ar y sefyllfa neu'n ei gwneud hi'n waeth.	Cam gweithredu gwael na fydd yn helpu i ddatrys y sefyllfa.	Cam gweithredu a fyddai'n cael rhywfaint o effaith gadarnhaol ar y sefyllfa.	Cam gweithredu rhesymol a fyddai'n helpu i ddatrys y sefyllfa.	Un o'r camau gweithredu gorau y gellir eu cymryd er mwyn datrys y sefyllfa.

Nid oes angen unrhyw wybodaeth arbenigol i gwblhau'r prawf. Dylai'ch atebion fod yn llwyr seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynir ym mhob senario.

Isod, fe welwch ddau senario enghreifftiol sy'n debyg i'r rhai y gofynnir i chi gwblhau pan fyddwch chi'n sefyll y Prawf Craffter Mewn Sefyllfaoedd ar gyfer Cwnstabiliaid Heddlu. Bydd hyn yn eich helpu i ddeall ffurf y senarios a'r camau gweithredu.

Dylech ystyried effeithiolrwydd pob cam gweithredu yn ôl eich ymateb cyntaf i'r senario a gyflwynir. Dylech farnu pob cam gweithredu'n annibynnol o'r camau gweithredu eraill a gyflwynir. Efallai y byddwch chi'n teimlo'ch bod chi eisiau cymryd camau gweithredu gwahanol i'r rhai a gyflwynir, fodd bynnag, dylech ganolbwyntio ar raddio effeithiolrwydd y pedwar cam gweithredu a roddir i chi.

## Senario Enghreifftiol 1

Mae'n ddyddiau cynnar eich cyfnod fel swyddog sy'n fyfyrwr ac rydych chi wedi arestio dynes sydd wedi'i gyhuddo o ddwyn sieciau wrth ei chyflogwr. Nid yw'r ddynes hon erioed wedi bod mewn trafferth gyda'r heddlu o'r blaen, a phan rydych chi'n siarad â hi, daw i'r amlwg bod ei phartner wedi colli ei waith a'u bod nhw'n cael trafferth cynnal y teulu. Mae'n dweud wrthyhch fod y sieciau dal ganddi ac nad ydynt wedi'u cyfnewid am arian.

Barnwch effeithiolrwydd y camau gweithredu canlynol:

	Gwrthgynhyrchiol	Aneffeithiol	Eithaf Effeithiol	Effeithiol	Effeithiol lawn
Cynhaliwch eich holl ymholiadau perthnasol ac arestiwch y ddynes am ei bod hi wedi dwyn wrth ei chyflogwr ac felly'n haeddu cael ei chosbi.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Ymgynghorwch â'r cyflogwr a cheisiwch ddatrys yr anghydfod mewn modd cyfeillgar oherwydd amgylchiadau personol y ddynes.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Dychwelwch y sieciau i'r cyflogwr a pheidiwch â chymryd unrhyw gamau gweithredu pellach oherwydd ni wnaed unrhyw niwed.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Gofynnwch i'r ddynes ymddiheuro wrth ei chyflogwr a'i chydweithwyr er mwyn atal staff eraill rhag dwyn.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

## Senario Enghreifftiol 2

Rydych chi wedi adnabod ardal ar ystâd leol sy'n adnabyddus am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae grŵp o bobl ifainc wedi bod yn ymgasglu tu allan i ganolfan gymunedol gan godi ofyn ar rhai sy'n mynd yno. Rydych chi wedi siarad â nifer o'r preswylwyr lleol er mwyn nodi'r prif bryderon a'r camau gweithredu maen nhw eisiau i'r heddlu gymryd, Mae'r preswylwyr eisiau i'r bobl ifainc gael eu symud ymlaen a'u hatal rhag ymgasglu yn yr ardal hon.

Barnwch effeithiolrwydd y camau gweithredu canlynol:

	Gwrthgynhyrchiol	Aneffeithiol	Eithaf Effeithiol	Effeithiol	Effeithiol lawn
Cyn cymryd unrhyw gamau gweithredu, casglwch ragor o wybodaeth am y bobl ifainc wrth amryw o bartïon perthnasol, megis swyddogion prawf a gweithwyr cymdeithasol, a gofynnwch am eu barn ynglŷn â'r hyn y dylid ei wneud.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Nid yw'r bobl ifainc yn cyflawni trosedd, felly esboniwch wrth y preswylwyr lleol y byddwch chi'n cofnodi'r mater ac yn monitro'r sefyllfa rhag ofn y bydd hi'n gwaethygu.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Gwasgarwch y bobl ifainc a'u hatal rhag ymgasglu tu allan i'r ganolfan gymunedol, er enghraifft, drwy gynnal patrolau'n amlach.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>
Siaradwch â'r bobl ifainc yn uniongyrchol am eu rhesymau dros ymgasglu tu allan i'r ganolfan gymunedol a nodwch weithgareddau gwrthdynnu priodol ar eu cyfer, megis chwaraeon neu gerddoriaeth.	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>	<input type="radio"/>

Pan fyddwch chi'n sefyll y prawf, gofynnir i chi gwblhau amrediad o senarios sy'n debyg i'r senarios enghreifftiol hyn. Byddwch chi'n cael cyfarwyddiadau llawn am y prawf cyn i chi gychwyn. Nid yw'r prawf yn cael ei amseru, ond dylai gymryd tua 30 i 35 munud i chi ei gwblhau.

Wrth ymateb i'r senarios, cadwch y pwyntiau canlynol mewn cof:

- Meddyliwch beth yw'r meini prawf pwysig ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r senario penodol. Beth yw'r brif flaenoriaeth? Sut beth fydd canlyniad llwyddiannus?
- Ystyriwch ganlyniadau posibl pob cam gweithredu mewn perthynas â'r sefyllfa. Beth fydd yr effaith? Pwy fydd yn cael ei effeithio? Pa mor debygol ydynt o ymateb?

## Paratoi ar gyfer y Sesiwn Brofi

- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cael noson dda o gwsg cyn i chi gymryd y prawf.
- Os ydych chi fel arfer yn gwisgo sbectol neu lensys cyffwrdd, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n eu gwisgo pan fyddwch chi'n cymryd y prawf.

## Yn Ystod y Sesiwn Brofi

- Dilynwch y cyfarwyddiadau ar gyfer y prawf yn ofalus.
- Os ydych chi'n ansicr ynghylch unrhyw beth, siaradwch â gweinyddwr y prawf cyn i chi gychwyn.
- Darllenwch bob senario a'r camau gweithredu yn drylwyr.
- Ceisiwch beidio â chynhyrfu a chanolbwyntiwch ar berfformio hyd eithaf eich gallu.

**Pob lwc â'r prawf. Gobeithio'ch bod chi'n teimlo bod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol.**